CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION PWYLLGOR ADLONIANT 12 MEDI 2017

Presennol
Cyng E Hughes – Cadeirydd

Cyng E Lovgreen, Cyng W L Davies, Cyng I C Thomas, Cyng K Jones, K Richards , Cyng R Thomas, Cyng A Hopcyn

1. **Ymddiheuriadau**

   Cyng M Sarnacki

2. **Datgan Buddiant Personol**

Dim

3. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc) er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau.**

Gŵyl Dewi

4. **Ethol Swyddogion**

   Cafodd Cyng E Hughes ei hethol yn unfrydol fel Cadeirydd
   Cafodd Cyng A Hopcyn ei hethol yn unfrydol fel Is Cadeirydd

5. **Digwyddiadau :**
   Eglurodd y clerc ei bod yn disgwyl triniaeth ysbyty fydd yn golygu cyfnod sylweddol o'r swyddfa felly angen sicrhau bod pawb yn deall trefniadau y digwyddiadau rhwng rŵan a Nadolig a chynghorwyr i dderbyn cyfrifoldeb dros elfennau os na fydd y clerc yn bresennol. Mae'r clerc yn amlwg yn ceisio trefnu cymaint a gallai o flaen llaw

i) Sul y Cofio – Aeth y clerc trwy'r oblygiadau ac fe wnaeth Cyng K Jones gymryd cyfrifoldeb am yr orymdaith , Cyng K Richards a Cyng R Thomas am glymu'r torchau ar ôl y digwyddiad , Cyng E Hughes am rannu'r rhaglenni (e-bost manwl wedi mynd i aelodau'r pwyllgor)

ii) Noson Nadoligaidd y Cyngor – ar ôl trafod penderfynwyd newid ambell i elfen
Trefn y noson os fydd bob dim ar gael rŵan fydd
Band Syr Hugh yn chwarae ar Y Maes 5.30 – 5.55 (cadeiriau wedi gosod wrth y goeden)
Gair o groeso a switch on gan y Maer am 6
Dathlu'r geni ar uned y llewod nol lawr yn ardal y prif Maes
Cerdded ar y pafin draw i Theatr Seilo (wedi tyfu rhy fawr i'r Eglwys bellach)
Wrth fynd heibio'r Institute snow machines a carolau allan or ffenestr a Sion Corn yn y Ffenestr yn codi llaw
Erbyn tua 6.30 Theatr Seilo plant i mewn trwy y drws cefn a cynulleidfa trwy'r top Band Llanrug i chwarae wrth i bawb dod mewn
Eto e-bost manwl wedi mynd allan i aelodau'r pwyllgor

iii) Sgrin Fawr
Llogi ar gyfer 22 /23 Rhagfyr
Clerc i llogi a cysylltu a Cwmni Da sydd yn gwneud y gwaith ffilmio am ddim bob blwyddyn

Gŵyl Dewi
Angen gwybod os oes bwriad cynnal y digwyddiad flwyddyn nesaf er mwyn dechrau llogi wahanol elfennau
Hollol gytûn mai dyma un o digwyddiadau hanfodol a braf gweld yn tyfu o flwyddyn i flwyddyn
Unfrydol i gario mlaen

Gorffennodd y Cyfarfod am 6.15

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....